

.....

# Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

.....

## Bwyd a Chi 2: Cylch 2



**Rhagfyr 2021**

**Awduron: Dr Beth Armstrong, Lucy King,  
Ayla Ibrahim, Robin Clifford, Mark Jitlal.**

DOI: <https://doi.org/10.46756/sci.fsa.ozf866>

Crynodeb gweithredol	6
Trosolwg ar Bwyd a Chi 2	6
Trosolwg ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	6
Y prif ganfyddiadau	7
Ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	7
Dealltwriaeth a defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	7
Defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i wneud penderfyniadau	8
Barn am y gofyniad i arddangos sgoriau	9
Cyflwyniad	10
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: ei rôl, ei chylch gwaith, a'i chyfrifoldebau	10
Cyflwyniad i'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	10
Bwyd a Chi 2	11
Dehongli'r canfyddiadau	12
Pennod 1: Ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	13
Ymwybyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	13
Adnabyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	18
Pennod 2: Dealltwriaeth a defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	24
Dealltwriaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	24
Defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	25
Defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wrth fwyta allan neu brynu bwyd tecawê	30
Y ffactorau y bydd pobl yn eu hystyried pan fyddan nhw'n archebu bwyd tecawê	31
Y ffactorau y bydd pobl yn eu hystyried pan fyddan nhw'n bwyta allan	33
Pennod 3: Defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i wneud penderfyniadau	36
Sgoriau hylendid bwyd derbyniol	36
Sefyllfaoedd sy'n effeithio ar sgoriau hylendid bwyd derbyniol	38
Effaith y sticer sgôr hylendid bwyd ar ganfyddiadau ac ymddygiad	44
Pennod 4: Agweddau tuag at y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	48

Barn am y gofyniad i arddangos sgoriau	48
Barn am y man lle y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd	49
Atodiad A: Bwyd a Chi 2	51
Bwyd a Chi 2	51
Cefndir	51
Methodoleg	51
Bwyd a Chi 2: Cylch 2	54
Termau technegol a diffiniadau	55
Cyfeiriadau	55

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1. Roedd cyfran debyg o'r ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.	14
Ffigur 2. Roedd oedolion rhwng 35 a 64 oed yn fwy tebygol o fod yn gwybod o leiaf rywfaint am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.	15
Ffigur 3. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd drwy weld sticer mewn busnes bwyd.	16
Ffigur 4. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld sticer sgôr hylendid bwyd yn cael ei arddangos ar safle busnes bwyd.	18
Ffigur 5. Roedd oedolion iau yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd nag oedolion hŷn.	20
Ffigur 6. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn bwyty yn ystod y 12 mis diwethaf.	21
Ffigur 7. Roedd ymatebwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn caffis na'r rheiny yn Lloegr.	23
Ffigur 8. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod bod y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol i fwytai, caffis, siopau tecawê, siopau coffi neu frechdanau, a gwestai neu dafarndai.	24
Ffigur 9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd siopau tecawê yn ystod y 12 mis diwethaf.	27
Ffigur 10. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld y sgôr ar sticer sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle busnes bwyd.	28
Ffigur 11. Profiad blaenorol o'r siop tecawê ac ansawdd y bwyd oedd y ffactorau y bydd yr ymatebwyr yn eu hystyried amlaf pan fyddan nhw'n penderfynu o ble i archebu bwyd tecawê.	31
Ffigur 12. Ansawdd y bwyd a phrofiad blaenorol o'r safle oedd y ffactorau a ystyrir amlaf pan fydd yr ymatebwyr yn penderfynu ble i fwytai.	33
Ffigur 13. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn bwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê â sgôr hylendid bwyd o 3 neu 4.	36
Ffigur 14. Dywedodd dau draean yr ymatebwyr na fydden nhw'n prynu bwyd o fusnes â sgôr hylendid bwyd is na'u sgôr dderbyniol isaf arferol.	38
Ffigur 15. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn prynu bwyd gan fusnes â sgôr hylendid bwyd is na'u sgôr dderbyniol isaf arferol pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd iddyn nhw, neu pe baen nhw wedi bwyta yno o'r blaen.	39

Ffigur 16. Gallai chwe deg y cant o'r ymatebwyr feddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol isaf arferol.	41
Ffigur 17. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn prynu bwyd gan fusnes â sgôr hylendid bwyd uwch na'u sgôr dderbyniol isaf arferol pe bai'n achlysur arbennig.	43
Ffigur 18. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn pryderu bod busnes bwyd yn ceisio cuddio sgôr hylendid bwyd isel neu wael pe na bai'n arddangos sticer sy'n dangos ei sgôr hylendid bwyd.	46
Ffigur 19. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau bwytai, caffis a siopau tecawê.	49

# Crynodeb gweithredol

## Trosolwg ar Bwyd a Chi 2

Arolwg a gynhelir ddwywaith y flwyddyn ymhlith sampl gynrychioliadol o bobl yw Bwyd a Chi 2. Fe'i hystyrir yn ystadegyn swyddogol ac fe'i comisiynir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae'r arolwg yn mesur yr wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiadau o ran diogelwch bwyd a materion bwyd eraill ymhlith oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel y'u cofnodir gan y defnyddwyr eu hunain. Mae arolwg Bwyd a Chi 2 yn cael ei gynnal ar-lein yn bennaf, a defnyddir methodoleg sy'n annog pobl i'w gwblhau ar-lein. Cynhaliwyd gwaith maes Bwyd a Chi 2: Cylch 2 rhwng 25 Tachwedd 2020 a 21 Ionawr 2021. Cwblhawyd yr arolwg gan 5,900 o oedolion o 3,955 o aelwydydd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn yn ystod pandemig COVID-19 ac felly mae'n cofnodi'r agweddau a'r ymddygiadau hynny a nodwyd o dan amgylchiadau anarferol sydd wedi cael effaith sylweddol ar sut a ble mae pobl yn prynu ac yn bwyta bwyd.

## Trosolwg ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus o ran ble i fwyta allan neu i siopa am fwyd trwy roi gwybodaeth glir am safonau hylendid busnesau. Fel arfer, bydd sgoriau'n cael eu rhoi i safleoedd lle mae bwyd yn cael ei gyflenwi neu'i werthu, gan gynnwys bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê, faniau bwyd a stondinau bwyd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhoi'r cynllun ar waith ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae busnesau'n cael sgôr hylendid bwyd o 0 i 5. Mae sgôr o 5 yn dangos bod y safonau hylendid yn dda iawn ac mae sgôr o 0 yn dangos bod angen gwella ar frys. Mae busnesau bwyd yn cael sticer sy'n dangos eu sgôr o dan y Cynllun. Yn Lloegr, caiff busnesau eu hannog i arddangos eu sgôr, ond yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr yn ôl y gyfraith. Mae sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd hefyd ar gael ar [wefan sgoriau'r ASB](#).

# Y prif ganfyddiadau

## Ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87%) eu bod wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun). Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun yn debyg ar draws Cymru (92%), Lloegr (86%) a Gogledd Iwerddon (90%)\*\*<sup>1</sup>. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yng Nghymru (65%) a Gogledd Iwerddon (57%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y Cynllun na'r rheiny yn Lloegr (46%).
- O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, y lle mwyaf cyffredin yr oedd yr ymatebwyr wedi dod ar ei draws oedd trwy weld sticer sgôr hylendid bwyd yn cael ei arddangos mewn busnes bwyd (83%).
- O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd dros draean yr ymatebwyr (36%) wedi dod ar ei draws ar wefan busnes bwyd.
- Pan ddangoswyd llun o sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd iddyn nhw, dywedodd 90% o'r ymatebwyr eu bod wedi gweld y sticer o'r blaen. Roedd adnabyddiaeth o'r sticer ychydig yn is yn Lloegr (89%) nag yng Nghymru (96%) a Gogledd Iwerddon (96%)\*\*.

## Dealltwriaeth a defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

- O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd tua hanner yr ymatebwyr (51%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (naill ai ar safle'r busnes neu ar-lein). Roedd ymatebwyr yng Nghymru (64%) a Gogledd Iwerddon (60%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd na'r rheiny yn Lloegr (50%).

---

<sup>1</sup> Gweler 'Dehongli'r canfyddiadau' i gael gwybod beth yw ystyr '\*\*\*'.

- O blith y rheiny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd, roedd y rhan fwyaf wedi gwirio sgôr hylendid bwyd siopau tecawê (70%) a bwytai (64%).
- O blith y rheiny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd, roedd y rhan fwyaf wedi gwneud hynny drwy edrych ar y sticer sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes bwyd (78%).
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd sut yr oedden nhw wedi gwirio'r sgôr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (78%) wedi edrych ar y sticer sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes bwyd.

## Defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i wneud penderfyniadau

- O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y bydden nhw'n dal i fwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o bedwar (da) (95%) neu dri (boddhaol ar y cyfan) (63%).
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa sgôr y bydden nhw fel arfer yn ei hystyried fel y sgôr hylendid bwyd isaf a fyddai'n dderbyniol iddyn nhw pan fydden nhw'n ystyried prynu bwyd o rywle. Pedwar (da) fyddai sgôr dderbyniol isaf dros bedwar o bob deg ymatebydd (41%), a thri (boddhaol ar y cyfan) fyddai sgôr dderbyniol isaf 43% o'r ymatebwyr.
- O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, nid oedd dau draean yr ymatebwyr (66%) yn gallu meddwl am sefyllfa lle y gallen nhw benderfynu prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr is na'u sgôr dderbyniol isaf.
- O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, gallai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (60%) feddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol isaf.
- O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61%) yn llai tebygol (h.y. 'yn llawer llai tebygol' neu 'ychydig yn llai tebygol') o fwyta bwyd mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa.



## Barn am y gofyniad i arddangos sgoriau

- O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd 95% yn meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd.
- O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd 95% yn meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd.

# Cyflwyniad

## Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: ei rôl, ei chylch gwaith, a'i chyfrifoldebau

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn adran lywodraethol sy'n gweithredu'n annibynnol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr o ran bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon<sup>2</sup>. Cenhadaeth gyffredinol yr ASB yw sicrhau bod gennym 'fwyd y gallwn ymddiried ynddo'. Nod a gweledigaeth yr ASB yw sicrhau bod bwyd yn ddiogel, a bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch beth i'w fwyta. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ASB yn gyfrifol am bolisi maeth ac mae ganddi'r nod ychwanegol o sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at ddeiet fforddiadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Bwriedir i arolwg Bwyd a Chi 2 fonitro cynnydd yr ASB o ran y nodau hyn a llywio penderfyniadau polisi trwy fynd ati'n rheolaidd i fesur yr wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiadau o ran diogelwch bwyd a materion bwyd eraill a gofnodir gan ddefnyddwyr eu hunain yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Cyflwyniad i'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r [Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd](#)<sup>3</sup> yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers ei lansio yn 2010. Mae'n helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus o ran ble i fwyta allan neu i siopa am fwyd trwy roi gwybodaeth glir am safonau hylendid busnesau. Fel arfer, bydd sgoriau'n cael eu rhoi i safleoedd lle caiff bwyd ei gyflenwi neu'i werthu'n uniongyrchol i bobl, fel bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê, gwestai, ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal, archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill. Yng Nghymru,

---

<sup>2</sup> Yn yr Alban, mae'r swyddfa anweinidogol, [Safonau Bwyd yr Alban](#), yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta, sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod beth maen nhw'n ei fwyta, a gwella maeth.

<sup>3</sup> Mae cynllun tebyg o'r enw'r Cynllun Gwybodaeth Hylendid Bwyd ar waith yn yr Alban.

mae'r cynllun hefyd yn cynnwys busnesau sy'n masnachu â busnesau eraill yn unig, fel gweithgynhyrchwyr.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhoi'r cynllun ar waith ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae swyddog diogelwch bwyd o'r awdurdod lleol yn arolygu busnesau i wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y gyfraith hylendid bwyd er mwyn i'r bwyd fod yn ddiogel i'w fwyta. Mae busnesau'n cael sgôr o 0 i 5. Mae sgôr o 5 yn dangos bod y safonau hylendid yn dda iawn ac mae sgôr o 0 yn dangos bod angen gwella ar frys.

Mae busnesau bwyd yn cael sticer sy'n dangos eu sgôr. Yn Lloegr, caiff busnesau eu hannog i arddangos eu sgôr, ond yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i busnesau bwyd arddangos eu sgôr yn ôl y gyfraith<sup>4</sup>. Mae'r sgoriau hefyd ar gael ar [wefan sgoriau'r ASB](#) a thrwy apiau trydydd parti.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau arolwg Bwyd a Chi 2: Cylch 2 o ran y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, gan gynnwys ymwybyddiaeth, adnabyddiaeth a defnydd yr ymatebwyr o'r Cynllun, dealltwriaeth o'r Cynllun a'i effaith ar ymddygiad, ac agweddau tuag at y Cynllun. Nid yw pob cwestiwn a ofynnwyd yn arolwg Bwyd a Chi 2: Cylch 2 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Mae'r holl ganlyniadau ar gael yn y [tablau data a'r set ddata sylfaenol](#).

## Bwyd a Chi 2

Comisiynodd yr ASB Ipsos MORI i lunio a chynnal arolwg newydd, 'Bwyd a Chi 2', ddwywaith y flwyddyn, a hynny ar-lein yn bennaf. Mae arolwg Bwyd a Chi 2 yn disodli arolwg Bwyd a Chi yr ASB a gynhaliwyd wyneb yn wyneb (2010-2018)<sup>5</sup>, Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd (2010-2019) ac [Arolwg Tracio Agweddau Defnyddwyr y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd](#) (2014-2019). Bwyd a Chi 2: Cylch 2 yw'r cylch casglu data cyntaf

---

<sup>4</sup> Cyflwynwyd deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol arddangos sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac yng Ngogledd Iwerddon ym mis Hydref 2016.

<sup>5</sup> Mae'r arolwg Bwyd a Chi wedi bod yn Ystadegyn Swyddogol ers 2014.

sydd wedi cynnwys cwestiynau am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Gan fod cynnwys y cwestiynau, y cyflwyniad a'r dull ymateb yn wahanol, ni ddylid cymharu'r arolygon cynharach hyn ag arolwg Bwyd a Chi 2 yn uniongyrchol. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hanes a'r fethodoleg yn Atodiad A.

Cynhaliwyd gwaith maes Bwyd a Chi 2: Cylch 2 rhwng 20 Tachwedd 2020 a 21 Ionawr 2021. Cwblhawyd yr arolwg gan 5,900 o oedolion o 3,955 o aelwydydd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (cyfradd ymateb o 28%).

## Dehongli'r canfyddiadau

I dynnu sylw at y prif wahaniaethau rhwng is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill, dim ond pan fo'r gwahaniaeth absoliwt yn 10 pwynt canran neu ragor ac yn ystadegol arwyddocaol ar y lefel 5% ( $p < 0.05$ ) y byddwn fel arfer yn tynnu sylw at wahaniaethau yn y proffiliau ymateb. Serch hynny, rydym wedi cynnwys rhai gwahaniaethau rhwng is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill pan fo'r gwahaniaeth yn llai na 10 pwynt canran, a hynny pan fyddwn yn tybio bod y canfyddiad yn nodedig neu'n ddiddorol. Rhoddir seren ddwbl (\*\*) i nodi'r gwahaniaethau hyn.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno tueddiadau rhwng rhai is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill yn y boblogaeth. Mewn rhai achosion, nid oedd yn bosibl cynnwys data pob is-grŵp, ond mae'r data hyn ar gael yn y [set ddata lawn a'r tablau data](#).

Darperir gwybodaeth bwysig am bob cwestiwn yr adroddir amdano yn y troednodiadau, gan gynnwys:

- Geiriad y cwestiwn (cwestiwn) a'r opsiynau ymateb (ymatebion).
- Nifer yr ymatebwyr y cyflwynwyd pob cwestiwn iddyn nhw a disgrifiad o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (sylfaen = ).
- Mae 'Pwysig' yn tynnu sylw at bwyntiau pwysig i'w hystyried wrth ddehongli'r canlyniadau.

# Pennod 1: Ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg ar ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth yr ymatebwyr o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.


## Ymwybyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87%) eu bod wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr (47%) eu bod wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'u bod o leiaf yn gwybod llawer neu ychydig amdano. Dywedodd pedwar o bob deg ymatebydd (40%) eu bod wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ond nad oedden nhw'n gwybod llawer amdano, os o gwbl. Dywedodd dros un o bob deg ymatebydd (13%) nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd<sup>6</sup>.

---

<sup>6</sup> Cwestiwn: Ydych chi wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd? Ymatebion: Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod cryn dipyn amdano, Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod ychydig amdano, Ydw, rydw i wedi clywed amdano ond dydw i ddim yn gwybod llawer amdano, Ydw, rydw i wedi clywed amdano ond dydw i ddim yn gwybod dim amdano, Na, dydw i erioed wedi clywed amdano. Sylfaen = 4850, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan trwy'r post. Pwysig: Cyfeirir at y rheiny a atebodd 'Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod cryn dipyn amdano', 'Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod ychydig amdano', ac 'Ydw, rydw i wedi clywed amdano ond dydw i ddim yn gwybod llawer amdano' fel rhai a oedd yn gwybod am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

**Ffigur 1. Roedd cyfran debyg o'r ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.**




Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn debyg ar draws Cymru (92%), Lloegr (86%) a Gogledd Iwerddon (90%) (Ffigur 1)\*\*. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yng Nghymru (65%) a Gogledd Iwerddon (57%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd na'r rheiny yn Lloegr (46%).

Roedd ymwybyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a gwybodaeth amdano, yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:

**Ffigur 2. Roedd oedolion rhwng 35 a 64 oed yn fwy tebygol o fod yn gwybod o leiaf rywfaint am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Roedd ymatebwyr rhwng 35 a 64 oed yn fwy tebygol o fod yn gwybod o leiaf rywfaint am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd na'r ymatebwyr ieuengaf a'r ymatebwyr hynaf. Er enghraifft, dywedodd 54% o'r ymatebwyr 45-54 oed eu bod yn gwybod am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, o'u cymharu â 40% o'r rheiny rhwng 16-24 oed a 36% o'r ymatebwyr 75 oed a throsodd (Ffigur 2).


Roedd ymwybyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a gwybodaeth amdano, hefyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:

- Incwm blynyddol aelwydydd: roedd ymatebwyr ag incwm rhwng £32,000 a £95,999 (er enghraifft, 54% o'r rheiny ag incwm o £64,000-£95,000) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd o'u cymharu â'r

rheiny yn y band incwm isaf (42% o'r rheiny ag incwm o lai nag £19,000) neu'r rheiny yn y band incwm uchaf (42% o'r rheiny ag incwm o fwy na £96,000).

- [Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol](#) (NS-SEC): roedd ymatebwyr mewn llawer o'r grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 51% o'r rheiny mewn galwedigaethau gwaith lled-ailadroddus ac ailadroddus) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd na'r rheiny a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (34%) neu fyfyrwyr amser llawn (37%).
- Grŵp ethnig: roedd ymatebwyr gwyn (49%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd nag ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (36%).
- Cyfrifoldeb dros goginio: roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am goginio (48%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd na'r rheiny nad ydyn nhw'n coginio (27%).

**Ffigur 3. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd trwy weld sticer mewn busnes bwyd.**






Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymhle roedden nhw wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod yr ymatebwyr wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd trwy weld sticer yn cael ei arddangos mewn busnes bwyd (83%). Roedd dros draean yr ymatebwyr (36%) wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar wefan busnes bwyd, ac roedd 22% wedi dod ar ei draws ar wefan a/neu ap archebu a/neu ddsbarthu bwyd (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, UberEats) (Ffigur 3)<sup>7</sup>.

---

<sup>7</sup> Cwestiwn: Ble ydych chi wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd?  
Ymatebion: Ar sticer mewn busnes bwyd, Ar wefan busnes bwyd (fel gwefan bwyty), Ar wefan neu ap archebu/dosbarth bwyd (fel Just Eat, Deliveroo, UberEats ac ati), Clywed gan rywun arall, Ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Yn y papur newyddion lleol, Trwy'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Twitter, Facebook Marketplace), Mewn hysbyseb neu erthygl cylchgrawn, Ar ap arall (e.e. Sgôr Hylendid Bwyd Scores on the Doors) (enwch yr ap), Ar wefan arall, Rhywle arall. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Pwysig: Nid yw'r canrannau a ddangosir yn rhoi cyfanswm o 100% oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

**Ffigur 4. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld sticer sgôr hylendid bwyd yn cael ei arddangos ar safle busnes bwyd.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yng Nghymru (89%), Lloegr (83%) a Gogledd Iwerddon (89%) wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd trwy weld sticer ar safle busnes bwyd (Ffigur 4)\*\*.

## Adnabyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Pan ddangoswyd llun o sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd iddyn nhw, dywedodd naw o bob deg ymatebydd (90%) eu bod wedi gweld y sticer o'r blaen. Roedd adnabyddiaeth

o'r sticer ychydig yn is yn Lloegr (89%) nag yng Nghymru (96%) a Gogledd Iwerddon (96%)<sup>8\*\*</sup>.




Roedd adnabyddiaeth o'r sticer sgôr hylendid bwyd yn amrywio rhwng gwahanol fathau o bobl.

---

<sup>8</sup> Cwestiwn: Ydych chi erioed wedi gweld y sticer hwn o'r blaen? Ymatebion: Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod / Ddim yn siŵr. Sylfaen = 4850, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post.

**Ffigur 5. Roedd oedolion iau yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd nag oedolion hŷn.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2


Roedd oedolion iau yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd nag oedolion hŷn. Er enghraifft, dywedodd 96% o'r ymatebwyr 16-24 oed eu bod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd o'u cymharu â 71% o'r ymatebwyr 75 oed a throsodd (Ffigur 5).

Roedd adnabyddiaeth o'r sticer sgôr hylendid bwyd hefyd yn amrywio rhwng gwahanol fathau o bobl:

- NS-SEC: roedd ymatebwyr mewn grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 92% o'r rheiny mewn galwedigaethau gwaith lled-ailadroddus ac ailadroddus) a myfyrwyr amser llawn (94%) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na'r rheiny a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (77%).
- Cyfrifoldeb dros goginio: roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am goginio (93%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na'r rheiny nad ydyn nhw'n coginio (82%).

- Grŵp ethnig: roedd ymatebwyr gwyn (91%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd nag ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (81%).
- Bwyta allan neu archebu bwyd tecawê: roedd yr ymatebwyr a oedd wedi bwyta allan neu archebu bwyd tecawê yn ystod y pedair wythnos diwethaf (93%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na'r rheiny nad oedden nhw wedi gwneud hynny (81%).

**Ffigur 6. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn bwyty yn ystod y 12 mis diwethaf.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2


Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymhle roedden nhw wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld y sticer

mewn bwytai (80%), ar siopau tecawê (68%) neu mewn caffis (68%). Nid oedd 4% o'r ymatebwyr wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn busnes bwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf (Ffigur 6)<sup>9</sup>.

---

<sup>9</sup> Cwestiwn: Ym mha rai o'r busnesau bwyd a ganlyn, os o gwbl, ydych chi wedi gweld y sticer hwn yn ystod y 12 mis diwethaf? Ymatebion: Mewn bwytai, Mewn caffis, Ar siopau tecawê, Mewn siopau coffi neu frechdanau, Mewn tafarndai, Mewn gwestai/llety gwely a brechwast, Mewn archfarchnadoedd, Mewn ysgolion neu sefydliadau eraill, Ar stondinau marchnad/bwyd stryd, Gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig), Mewn siopau bwyd eraill, Rhywle arall, Dydw i ddim wedi gweld y sticer hwn mewn busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Sylfaen = 4488, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi gweld sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

**Ffigur 7. Roedd ymatebwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn caffis na'r rheiny yn Lloegr.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2


Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn bwytai yng Nghymru (85%), Lloegr (79%) a Gogledd Iwerddon (87%)\*. Roedd ymatebwyr yng Nghymru (79%) a Gogledd Iwerddon (78%) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn caffis na'r rheiny yn Lloegr (67%). Roedd ymatebwyr yng Nghymru (66%) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn tafarndai na'r rheiny yn Lloegr (48%) a Gogledd Iwerddon (37%) (Ffigur 7).

# Pennod 2: Dealltwriaeth a defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg ar ddealltwriaeth a defnydd yr ymatebwyr o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

## Dealltwriaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

**Ffigur 8. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod bod y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol i fwytai, caffis, siopau tecawê, siopau coffi neu frechdanau, a gwestai neu dafarndai.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2



Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba fathau o fusnesau bwyd yr oedd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol yn eu tyb nhw, gan ddewis o blith rhestr o fusnesau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl bod y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol i fwytai (96%), caffis (94%), siopau tecawê (93%), siopau coffi neu frechdanau (90%), tafarndai (88%), a gwestai neu lety gwely a brecwast (79%). Roedd hanner yr ymatebwyr (50%) yn meddwl ei fod yn berthnasol i ysgolion a sefydliadau eraill. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn meddwl bod y Cynllun yn berthnasol i archfarchnadoedd (48%) a stondinau marchnad neu fwyd stryd (43%) (Ffigur 8)<sup>10</sup>.

## Defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Gofynnwyd i'r rheiny a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a oedden nhw wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (naill ai ar safle bwyd neu ar-lein) p'un a fu iddyn nhw benderfynu prynu bwyd yno ai peidio. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (51%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf<sup>11</sup>.

Roedd ymatebwyr yng Nghymru (64%) a Gogledd Iwerddon (60%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd nag ymatebwyr yn Lloegr (50%).

---


<sup>10</sup> Cwestiwn: I ba rai o'r busnesau canlynol y mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol yn eich tyb chi? Ymatebion: bwytai, caffis, siopau tecawê, siopau coffi neu frechdanau, tafarndai, gwestai/llety gwely a brecwast, archfarchnadoedd, ysgolion neu sefydliadau eraill, stondinau marchnad/bwyd stryd, gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig), siopau bwyd eraill, arall. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

<sup>11</sup> Cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd? Efallai eich bod wedi gwirio'r sgôr ar safle busnes, ar-lein, mewn taflenni neu ar fwydlenni, p'un a wnaethoch chi benderfynu prynu bwyd yno ai peidio. Ymatebion: Ydw, rydw i wedi gwirio Sgôr Hylendid Bwyd busnes bwyd, Nac ydw, dydw i ddim wedi gwirio Sgôr Hylendid Bwyd busnes bwyd, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

Roedd yr arfer o wirio sgoriau hylendid bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

- Grŵp oedran: roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag oedolion hŷn. Er enghraifft, roedd 60% o'r rheiny rhwng 16-24 oed wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes o'u cymharu â 42% o'r rheiny 75 oed a throsodd.
- Incwm blynyddol aelwydydd: roedd ymatebwyr yn y grwpiau incwm islaw £96,000 (er enghraifft, 58% o'r rheiny ag incwm o £32,000 – £63,999) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r rheiny ag incwm o fwy na £96,000 (40%).
- NS-SEC: roedd myfyrwyr amser llawn (63%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r ymatebwyr ym mhob grŵp galwedigaethol arall (er enghraifft, 45% o'r cyflogwyr bach a gweithwyr ar eu liwt eu hunain) a'r rheiny a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (47%).
- Grŵp ethnig: roedd ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (64%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag ymatebwyr gwyn (50%).
- Cyfrifoldeb dros goginio: roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am goginio (50%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r rheiny nad ydyn nhw'n coginio (35%).
- Bwyta allan neu archebu bwyd tecawê: roedd yr ymatebwyr a oedd wedi bwyta allan neu archebu bwyd tecawê yn ystod y pedair wythnos diwethaf (55%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r rheiny nad oedden nhw wedi gwneud hynny (36%).

**Ffigur 9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd siopau tecawê yn ystod y 12 mis diwethaf.**




Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd pa fathau o fusnesau yr oedden nhw wedi gwirio eu sgoriau hylendid yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd siopau tecawê (70%) a bwytai (64%). Roedd llai na hanner yr ymatebwyr (44%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd caffis, 31% wedi gwirio sgôr siopau coffi neu frechdanau, a 28% wedi

gwirio sgôr tafarndai. Roedd yr ymatebwyr leiaf tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd stondinau marchnad neu fwyd stryd (4%) (Ffigur 9)<sup>12</sup>.

**Ffigur 10. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld y sgôr ar sticer sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle busnes bwyd.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

<sup>12</sup> Cwestiwn: Ym mha rai o'r busnesau bwyd canlynol ydych chi wedi gwirio'r sgoriau hylendid yn ystod y 12 mis diwethaf? Ymatebion: Mewn bwytai, Mewn caffis, Mewn siopau tecawê, Mewn siopau coffi neu frechdanau, Mewn tafarndai, Mewn gwestai/llety gwely a brechwast, Mewn archfarchnadoedd, Mewn ysgolion neu sefydliadau eraill, Ar stondinau marchnad/bwyd stryd, Gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig), Mewn siopau bwyd eraill, Rhywle arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2346, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd sut yr oedden nhw wedi gwirio'r sgôr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (78%) wedi edrych ar y sticer sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes bwyd. Roedd tua un o bob pump ymatebydd (21%) wedi gwirio'r sgôr ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, JustEat, Deliveroo, UberEats), roedd 21% wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes ar wefan y busnes bwyd ei hun, ac roedd 12% o'r ymatebwyr wedi gwirio'r sgôr ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Ffigur 10)<sup>13</sup>.

Roedd ymatebwyr yng Nghymru (88%) a Gogledd Iwerddon (86%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy edrych ar sticer a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes nag ymatebwyr yn Lloegr (77%). I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr yn Lloegr (22%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein na'r rheiny yng Nghymru (16%) a Gogledd Iwerddon (12%)\*.\*. Roedd y dull o wirio sgoriau hylendid bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:

- Grŵp oedran: roedd oedolion dros 45 oed (er enghraifft, 83% o'r rheiny rhwng 45-54 oed) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy edrych ar sticer hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes nag oedolion 16-24 oed (72%) neu 35-44 oed (72%). I'r gwrthwyneb, roedd oedolion o dan 45 oed (er enghraifft, 34% o'r rheiny rhwng 25-34 oed) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, JustEat, Deliveroo, UberEats) nag oedolion 45 oed a throsodd (er enghraifft, 5% o'r rheiny 75 oed a throsodd).

---

<sup>13</sup> Cwestiwn: Sut gwnaethoch chi wirio'r sgoriau hyn? Ymatebion: Fe edrychais i ar sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes bwyd (fel ffenestr neu ddrws y busnes), Fe edrychais i ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, JustEat, Deliveroo, UberEats), Fe edrychais i ar wefan y busnes bwyd ei hun, Fe edrychais i ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Fe edrychais i ar ap (er enghraifft, Sgôr Hylendid Bwyd Scores on the Doors), Fe edrychais i mewn papur newyddion lleol, Fe edrychais i ar wefan arall, Arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2346, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd.

- Mynediad at gyflenwad bwyd<sup>14</sup>: roedd yr ymatebwyr â mynediad ymylol (27%), isel (29%) neu isel iawn (32%) at gyflenwad bwyd digonol yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd drwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein na'r rheiny â mynediad uchel at gyflenwad bwyd digonol (18%).
- Bwyta allan neu archebu bwyd tecawê: roedd yr ymatebwyr a oedd wedi bwyta allan neu archebu bwyd tecawê yn ystod y pedair wythnos diwethaf (23%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein na'r rheiny nad oedden nhw wedi gwneud hynny (8%).

## Defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wrth fwyta allan neu brynu bwyd tecawê

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ffactorau, o blith rhestr o opsiynau, y byddan nhw fel arfer yn eu hystyried pan fyddan nhw'n penderfynu ble i fwyta allan neu o ble i archebu bwyd tecawê.<sup>15</sup>


---

<sup>14</sup> Nodir ystyr y term mynediad at gyflenwad bwyd a'r dulliau a ddefnyddir i'w fesur yn yr adran Termau Technegol a Diffiniadau.

<sup>15</sup> Mae hyn yn cynnwys bwyd tecawê a archebir yn uniongyrchol o siop tecawê neu fwyty neu drwy gwmni dosbarthu ar-lein.

## Y ffactorau y bydd pobl yn eu hystyried pan fyddan nhw'n archebu bwyd tecawê

Ffigur 11. Profiad blaenorol o'r siop tecawê ac ansawdd y bwyd oedd y ffactorau y bydd yr ymatebwyr yn eu hystyried amlaf pan fyddan nhw'n penderfynu o ble i archebu bwyd tecawê.



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

O blith y rheiny a oedd wedi archebu bwyd o siop tecawê, profiad blaenorol yr ymatebwyr o'r siop tecawê (80%) ac ansawdd y bwyd (80%) oedd y ffactorau mwyaf cyffredin y bydd yr ymatebwyr yn eu hystyried pan fyddan nhw'n penderfynu o ble i archebu bwyd tecawê.

Bydd 43% o'r ymatebwyr yn ystyried y sgôr hylendid bwyd pan fyddan nhw'n penderfynu o ble i archebu bwyd tecawê (Ffigur 11)<sup>16</sup>.

Roedd ymatebwyr yng Nghymru (52%) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd pan fyddan nhw'n archebu bwyd tecawê na'r rheiny yng Ngogledd Iwerddon (45%) neu Loegr (42%).

Roedd yr arfer o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynu o ble i archebu bwyd tecawê yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:

- Grŵp oedran: roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau oedran o dan 75 oed (er enghraifft, 47% o'r rheiny rhwng 65-74 oed) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd pan fyddan nhw'n archebu bwyd tecawê nag oedolion 75 oed a throsodd (34%).
- Incwm blyneddol aelwydydd: roedd ymatebwyr ag incwm islaw £96,000 (er enghraifft, 50% o'r rheiny ag incwm islaw £19,000) yn fwy tebygol o ystyried sgôr hylendid bwyd busnes pan fyddan nhw'n archebu bwyd tecawê na'r rheiny ag incwm o fwy na £96,000 (28%).


---

<sup>16</sup> Cwestiwn: Yn gyffredinol, pan fyddwch chi'n archebu bwyd o siopau tecawê (naill ai'n uniongyrchol o siop tecawê neu fwyty neu drwy gwmni dosbarthu bwyd ar-lein fel Just Eat, Uber Eats neu Deliveroo), beth byddwch chi'n ei ystyried pan fyddwch chi'n penderfynu o ble i archebu bwyd? Ymatebion: Fy mhrofiad blaenorol o'r siop tecawê, Ansawdd y bwyd, Pris (gan gynnwys cost dosbarthu'r bwyd), Y math o fwyd (er enghraifft, y math o *cuisine* neu ddewisiadau llysieuol/figan), Argymhellion teulu neu ffrindiau, Y Sgôr Hylendid Bwyd, Lleoliad y siop tecawê, A oes dewisiadau dosbarthu neu gasglu ar gael, A oes cynigion, bargeinion neu ostyngiadau ar gael, Yr amseroedd danfon/casglu, A oes modd archebu'r bwyd ar-lein er enghraifft, drwy wefan neu ap, Adolygiadau er enghraifft, ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol neu mewn papurau newydd neu gylchgronau, A yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn, A oes dewisiadau iachach ar gael, A oes gwybodaeth am alergenau ar gael, A oes gwybodaeth am galorïau ar gael, Dim o'r rhain, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4101, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post sy'n archebu bwyd tecawê.



## Y ffactorau y bydd pobl yn eu hystyried pan fyddan nhw'n bwyta allan

Ffigur 12. Ansawdd y bwyd a phrofiad blaenorol o'r lle oedd y ffactorau a ystyrir amlaf pan fydd yr ymatebwyr yn penderfynu ble i fwyta.



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

O blith y rheiny sy'n bwyta allan, ansawdd y bwyd (84%) a phrofiad blaenorol yr ymatebwyr o'r lle (78%) oedd y ffactorau mwyaf cyffredin y bydd yr ymatebwyr yn eu hystyried pan fyddan nhw'n penderfynu ble i fwyta allan. Roedd bron i hanner yr

ymatebwyr (48%) yn ystyried y sgôr hylendid bwyd pan fyddan nhw'n penderfynu ble i fwyta (Ffigur 12)<sup>17</sup>.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml y byddan nhw'n gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd pan fyddan nhw'n cyrraedd y safle. Dywedodd dros un o bob deg (12%) eu bod bob amser yn edrych ar sgôr hylendid bwyd busnes pan fyddan nhw'n cyrraedd.

Dywedodd 24% o'r ymatebwyr eu bod yn gwneud hyn y rhan fwyaf o'r amser, a dywedodd 34% eu bod yn gwneud hyn yn llai aml (h.y 'tua hanner yr amser' neu 'o bryd i'w gilydd'). Dywedodd dros chwarter yr ymatebwyr (27%) na fyddan nhw byth yn edrych ar sgôr hylendid bwyd busnes bwyd pan fyddan nhw'n cyrraedd y safle<sup>18</sup>.

---

<sup>17</sup> Cwestiwn: Yn gyffredinol, pan fyddwch chi'n bwyta allan, beth byddwch chi'n ei ystyried pan fyddwch chi'n penderfynu ble i fynd? Meddylwch am fwyta allan mewn bwytai, tafarndai/bariau, a chaffis/siopau coffi/siopau brechedanau. Ymatebion: Ansawdd y bwyd, Fy mhrofiad blaenorol o'r lle, Glendid y lle, Ansawdd y gwasanaeth, Argymhellion teulu neu ffrindiau, Pris, Lleoliad, Y math o fwyd (er enghraifft, y math o *cuisine* neu ddewisiadau llysieuol/figan), Y Sgôr Hylendid Bwyd, Awyrgylch y lle, A oes cynigion, bargeinion neu ostyngiadau ar gael, Adolygiadau e.e. ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol, neu mewn papurau newyddion neu gylchgronau, A yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn, A oes dewisiadau iachach ar gael, A yw'r lle'n croesawu plant, A oes gwybodaeth am alergenau ar gael, A oes gwybodaeth am galoriau ar gael, Dim o'r rhain, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4672, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post sy'n bwyta allan.

<sup>18</sup> Cwestiwn: Pan fyddwch chi'n cyrraedd bwyty neu siop tecawê, pa mor aml, os o gwbl, y byddwch chi'n edrych ar sgôr hylendid busnes bwyd? Ymatebion: Byddaf i bob amser yn edrych ar y sgôr pan fyddaf i'n cyrraedd, Byddaf i'n gwneud hyn y rhan fwyaf o'r amser, Byddaf i'n gwneud hyn tua hanner yr amser, Byddaf i'n gwneud hyn o bryd i'w gilydd, Dydw i byth yn gwneud hyn pan fyddaf i'n cyrraedd, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4272, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a ddywedodd sut y byddan nhw'n gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd, ac eithrio'r rheiny a ddywedodd 'Dydw i ddim yn bwyta mewn bwytai nac yn archebu bwyd o siopau tecawê'.

Roedd pa mor aml y bydd yr ymatebwyr yn gwirio sgôr hylendid busnes bwyd pan fyddan nhw'n cyrraedd y safle'n amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:


- Incwm blynyddol aelwydydd: roedd ymatebwyr ag incwm islaw £19,000 (17%) yn fwy tebygol o edrych ar sgôr hylendid bwyd busnes pan fyddan nhw'n cyrraedd y safle na'r rheiny ag incwm dros £64,000 (er enghraifft, 1% o'r rheiny ag incwm o £64,000 – £95,999).
- Roedd ymatebwyr yng Nghymru (25%) yn fwy tebygol o edrych ar sgôr hylendid bwyd busnes bob tro y byddan nhw'n cyrraedd safle busnes bwyd na'r rheiny yn Lloegr (11%). Dywedodd bron i un o bob pump (17%) o'r ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon eu bod bob amser yn gwneud hyn\*\*.
- Mynediad at gyflenwad bwyd: roedd yr ymatebwyr â mynediad isel (20%) neu isel iawn (22%) at gyflenwad bwyd digonol yn fwy tebygol o edrych ar sgôr hylendid busnes bwyd bob tro y byddan nhw'n cyrraedd y safle o'u cymharu â'r rheiny â mynediad ymylol (12%) neu uchel (10%) at gyflenwad bwyd digonol.

# Pennod 3: Defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i wneud penderfyniadau

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg ar y ffordd y bydd pobl yn defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i benderfynu ble i fwyta allan neu ble i brynu bwyd.

## Sgoriau hylendid bwyd derbyniol

**Ffigur 13. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn bwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê â sgôr hylendid bwyd o 3 neu 4.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried a fydden nhw'n dal i fwyta neu archebu bwyd o fwyty neu o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sgôr is na'r sgôr uchaf o 5 (da iawn) ar

sticer sgôr hylendid bwyd ar ôl cyrraedd safle'r busnes bwyd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y bydden nhw'n dal i fwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o 4 (da) (95%) neu 3 (boddhaol ar y cyfan) (63%). Serch hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fydden nhw'n bwyta bwyd mewn bwyty nac o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o 2 (angen gwella) (80%), 1 (angen gwella yn sylweddol) (94%) neu 0 (angen gwella ar frys) (95%) (Ffigur 13)<sup>19</sup>.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa sgôr y bydden nhw fel arfer yn ei hystyried fel y sgôr hylendid bwyd isaf a fyddai'n dderbyniol iddyn nhw pan fydden nhw'n ystyried prynu bwyd o rywle. Byddai llai nag un o bob 10 (8%) o'r ymatebwyr yn ystyried sgôr o 5 (da iawn) fel eu sgôr dderbyniol isaf. Byddai dros bedwar o bob 10 ymatebydd yn ystyried sgôr o 4 (da) (41%) fel eu sgôr dderbyniol isaf, gyda 43% o'r ymatebwyr yn ystyried sgôr o 3 (boddhaol ar y cyfan) a 4% yn ystyried sgôr o 2 (angen gwella) fel eu sgôr dderbyniol isaf. Byddai tua un o bob cant (1%) o'r ymatebwyr yn ystyried sgôr o 1 (angen gwella yn sylweddol) ac 1% yn ystyried sgôr o 0 (angen gwella ar frys) fel eu sgôr dderbyniol isaf<sup>20</sup>.


---

<sup>19</sup> Cwestiwn: Ar gyfer pob un o'r sgoriau hylendid a ganlyn, dywedwch a fyddech chi'n dal i fwyta bwyd mewn bwyty neu o siop tecawê pe baech chi'n gweld y sgôr honno, neu a fyddech chi'n penderfynu peidio â bwyta bwyd yn y bwyty neu o'r siop tecawê hwnnw. Ymatebion: Byddwn i'n dal i fwyta bwyd yn y bwyty / o'r siop tecawê, Fyddwn i ddim yn bwyta bwyd yn y bwyty / o'r siop tecawê, Ddim yn gwybod. Sylfaen = gweler Tabl Cryno FHRS11\_rebased i weld y rhifau sylfaen, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

<sup>20</sup> Cwestiwn: Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw'r sgôr isaf a fyddai'n dderbyniol i chi fel arfer pe baech chi'n ystyried prynu bwyd o rywle? Ymatebion: 0 – angen gwella ar frys, 1 – angen gwella yn sylweddol, 2 – angen gwella, 3 – boddhaol ar y cyfan, 4 – da, 5 – da iawn, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4646, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post, ac eithrio'r rhai a ddywedodd 'Dydw i ddim fel arfer yn sylwi ar y sgôr pan fyddaf i'n mynd i mewn i fusnes bwyd'.

## Sefyllfaoedd sy'n effeithio ar sgoriau hylendid bwyd derbynol

**Ffigur 14.** Dywedodd dau draean yr ymatebwyr na fydden nhw'n prynu bwyd o fusnes â sgôr hylendid bwyd is na'u sgôr dderbynol isaf arferol.




Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a allen nhw feddwl am sefyllfa lle y gallen nhw benderfynu prynu bwyd o fusnes â sgôr is na'u sgôr dderbynol isaf arferol. Ar draws pob sgôr, dywedodd dau draean yr ymatebwyr (66%) na allen nhw feddwl am sefyllfa lle y gallen nhw benderfynu prynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr is. Gallai 23% feddwl am sefyllfa o'r

fath. Ni allai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y mae sgôr o 3-5 yn sgôr dderbyniol isaf iddyn nhw feddwl am sefyllfa lle y gallen nhw brynu bwyd gan fusnes â sgôr is (Ffigur 14)<sup>21</sup>.

**Ffigur 15. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn prynu bwyd gan fusnes â sgôr hylendid bwyd is na'u sgôr dderbyniol isaf arferol pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd iddyn nhw, neu pe baen nhw wedi bwyta yno o'r blaen.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

<sup>21</sup> Cwestiwn: Allwch chi feddwl am sefyllfa lle y gallech chi benderfynu prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr is na ... (sgôr)? Ymatebion: Gallaf, Na allaf, Ddim yn gwybod. Sylfaen = yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd eu bod yn ystyried sgôr o ... (sgôr) yn dderbyniol pan fyddan nhw'n prynu bwyd o rywle, ac eithrio'r rhai nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Pwysig: Y sgôr a ddangoswyd oedd y sgôr a roddwyd fel ateb i'r cwestiwn blaenorol: 'Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw'r sgôr isaf a fyddai'n dderbyniol i chi fel arfer pe baech chi'n ystyried prynu bwyd o rywle?'


Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn gallu meddwl am sefyllfa lle y gallen nhw brynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr is na'u sgôr dderbyniol arferol egluro beth fyddai'r sefyllfa honno drwy ddewis o blith rhestr o opsiynau. Y sefyllfaoedd mwyaf cyffredin oedd: pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd iddyn nhw (55%), pe baen nhw wedi bwyta bwyd oddi yno o'r blaen (54%), pe baen nhw allan yn hwyr y nos (37%), neu pe baen nhw'n gwybod bod y bwyd o ansawdd uchel (33%) (Ffigur 15)<sup>22</sup>.

---

<sup>22</sup> Cwestiwn: Beth fyddai'r sefyllfa honno? Ymatebion: Pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd iddyn nhw, Pe bawn i wedi bwyta bwyd oddi yno o'r blaen, Pe bawn i allan yn hwyr y nos, Pe bawn i'n gwybod bod y bwyd o ansawdd uchel, Pe bai angen bwyd arna i'n gyflym, Pe bai rhywun wedi argymhell y lle, Pe na bai gennyf lawer o arian i'w wario/pe bawn i am brynu bwyd o rywle rhad, Pe bai rhywun arall yn fy ngrŵp wedi dewis y busnes bwyd hwn, Pe bawn i'n mwynhau blas y bwyd o'r lle, Pe na bawn i'n gyfarwydd â'r lleoliad (gweithio i ffwrdd, ar wyliau, ac ati), Pe bai'n rhan o gadwyn rydw i'n gyfarwydd â hi, Oherwydd y byddwn i'n tybio ei fod yn ddiogel os yw'n dal i fod yn agored/gweithredu, Pe bai'r busnes bwyd yn gweini math penodol o fwyd (e.e. math o *cuisine* neu ddewisiadau llysieuol/figan), Pe bawn i'n cael bwyd tecawê yn hytrach na bwyta ar y safle, Arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 734, yr holl ymatebwyr ar-lein a oedd yn gallu meddwl am sefyllfa lle y gallen nhw brynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr is na'u sgôr dderbyniol arferol, ac eithrio'r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.



**Ffigur 16. Gallai chwe deg y cant o'r ymatebwyr feddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol isaf arferol.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a allen nhw feddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol isaf arferol. Yn gyffredinol, gallai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (60%) feddwl am sefyllfa lle y bydden nhw'n gwneud hyn. Ni allai 29% o'r ymatebwyr wneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn tybio bod sgôr o 2 (angen gwella) (59%), 3 (boddhaol ar y cyfan) (62%) neu 4 (da) (60%) yn gyffredinol dderbyniol yn gallu meddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch. Serch hynny, nid oedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn tybio bod sgôr o 0 (angen gwella ar frys) (68%) neu 1 (angen gwella yn sylweddol) yn

gyffredinol dderbyniol yn gallu meddwl am sefyllfa lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch (Ffigur 16)<sup>23</sup>.

---

<sup>23</sup> Cwestiwn: Allwch chi feddwl am achlysur lle na fyddech chi ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na ... (sgôr)? Ymatebion: Gallaf, Na allaf, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3075, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd y bydden nhw'n bwyta bwyd o fusnes â sgôr o ... (sgôr), ac eithrio'r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Pwysig: Y sgôr a ddangoswyd oedd y sgôr a roddwyd fel ateb i'r cwestiwn blaenorol: 'Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw'r sgôr isaf a fyddai'n dderbyniol i chi fel arfer pe baech chi'n ystyried prynu bwyd o rywle?'

**Ffigur 17. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn prynu bwyd gan fusnes â sgôr hylendid bwyd uwch na'u sgôr dderbyniol isaf arferol pe bai'n achlysur arbennig.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn gallu meddwl am achlysur lle na fydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol arferol egluro beth fyddai'r achlysur hwnnw trwy ddewis o blith rhestr o opsiynau. Yr achlysuron mwyaf cyffredin oedd achlysuron arbennig (57%), pan fydd yr ymatebydd yng nghwmni pobl benodol neu aelodau penodol o'i deulu (43%), pan fydd yr ymatebydd mewn lle

anghyfarwydd (41%) neu pan fydd gan yr ymatebydd neu rywun arall ofynion iechyd arbennig (40%) (Ffigur 17)<sup>24</sup>.

## Effaith y sticer sgôr hylendid bwyd ar ganfyddiadau ac ymddygiad

Pe na bai sticer sy'n dangos sgôr hylendid bwyd y busnes yn cael ei arddangos wrth y fynedfa, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau, os o gwbl, y byddai hynny'n effeithio ar eu penderfyniad i fwyta yno. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61%) yn llai tebygol (h.y. 'yn llawer llai tebygol' neu 'ychydig yn llai tebygol') o fwyta bwyd mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa. Serch hynny, dywedodd 27% o'r ymatebwyr na fyddai hynny'n peri iddyn nhw fod yn llai tebygol o fwyta yno.

Byddai cyfran uwch o'r ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru (72%) yn llai tebygol (h.y. 'yn llawer llai tebygol' neu 'ychydig yn llai tebygol') o fwyta mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa o'u cymharu ag ymatebwyr yn Lloegr (60%) a Gogledd Iwerddon (65%)\*<sup>25</sup>.

---

<sup>24</sup> Cwestiwn: Beth fyddai'r achlysur hwnnw? Ymatebion: Pan fydd yn achlysur arbennig (pen-blwydd, pen-blwydd priodas, dathliad, ac ati), Pan fyddaf i yng nghwmni pobl benodol/aelodau penodol o'r teulu, Pan fyddaf i mewn lle anghyfarwydd (gweithio i ffwrdd, ar wyliau, ac ati), Pan fydd gennyf i neu rywun arall ofynion iechyd arbennig (salwch, beichiogrwydd, ac ati), Pan fyddaf i'n mynd yng nghwmni pobl hŷn, Pan fyddaf i'n mynd yng nghwmni plant (ifanc), Pan fyddaf i am fynd i le drud, Pan fydd yn rhan o gadwyn, Arall. Sylfaen = 1882, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd na fydden nhw ond yn bwyta bwyd o fusnes â sgôr uwch, ac eithrio'r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.


<sup>25</sup> Cwestiwn: Pe na bai sticer sy'n dangos sgôr hylendid bwyd y busnes yn cael ei arddangos wrth y fynedfa, i ba raddau, os o gwbl, y byddai hynny'n effeithio ar eich penderfyniad i fwyta yno? Ymatebion: Byddwn i'n llawer llai tebygol o fwyta yno, Byddwn i ychydig yn llai tebygol o fwyta yno, Fyddwn i ddim yn llai tebygol o fwyta yno, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd nad oedd yn arddangos sticer a oedd yn dangos ei sgôr hylendid bwyd. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, dywedodd 16% eu bod wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd oherwydd nad oedd yn arddangos sticer a oedd yn dangos ei sgôr hylendid bwyd<sup>26</sup>.

---

<sup>26</sup> Cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a fu i chi benderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd oherwydd nad oedd yn arddangos sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd?  
Ymatebion: Do, Naddo, Ddim yn gwybod/Methu cofio. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

**Ffigur 18. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn pryderu bod busnes bwyd yn ceisio cuddio sgôr hylendid bwyd isel neu wael pe na bai'n arddangos sticer sy'n dangos ei sgôr hylendid bwyd.**



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth fyddai'n peri pryder iddyn nhw pe baen nhw'n ymweld â busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sy'n dangos ei sgôr hylendid bwyd ar y safle. Y pryderon mwyaf cyffredin oedd bod gan y busnes bwyd sgôr hylendid bwyd isel neu wael a'i fod yn ceisio'i chuddio (52%) a bod gan y busnes bwyd safonau hylendid gwael (52%). Ni fyddai dros chwarter yr ymatebwyr (26%) yn sylwi pe na bai sticer yn cael ei

arddangos, ac ni fyddai 3% yn pryderu am ddim byd pe na bai'r sticer yn cael ei arddangos (Ffigur 18)<sup>27</sup>.

---

<sup>27</sup> Cwestiwn: Pe baech chi'n ymweld â busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar y safle, a fydech chi'n pryderu am unrhyw rai o'r pethau a ganlyn? Ymatebion: Bod gan y busnes bwyd sgôr hylendid bwyd isel neu wael a'i fod yn ceisio'i chuddio, Bod safonau hylendid y busnes bwyd yn wael, A yw'r busnes bwyd wedi'i arolygu gan yr awdurdodau perthnasol ai peidio, Bod mwy o berygl o gael gwenwyn bwyd/salwch/haint drwy fwyta yno, Pa mor ddiogel yw hi i fwyta yn y busnes bwyd, Nad yw'r busnes bwyd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, Fyddwn i ddim yn sylwi pe na bai'r sticer yn cael ei arddangos, Fyddwn i ddim yn pryderu am ddim byd, Arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

# Pennod 4: Agweddau tuag at y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

## Barn am y gofyniad i arddangos sgoriau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a oedden nhw'n meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, neu a ddylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd 95% yn meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, ac roedd 3% yn meddwl y dylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio. Roedd y canfyddiad hwn yn debyg ar draws y tair gwlad; roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yng Nghymru (94%), Lloegr (95%) a Gogledd Iwerddon (94%) yn meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd<sup>28</sup>.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a oedden nhw'n meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd 95% yn meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd, ac nid oedd 2% yn

---


<sup>28</sup> Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, neu a ddylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio? Ymatebion: Dylai fod rhaid iddyn nhw eu harddangos, Dylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.



meddwl hynny. Roedd y canfyddiad hwn yn debyg ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon<sup>29</sup>.

## Barn am y man lle y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd

**Ffigur 19.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau bwytai, caffis a siopau tecawê.



Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymhle y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd, gan ddewis o blith rhestr o leoliadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau bwytai neu gaffis (96%), ar wefannau siopau tecawê

<sup>29</sup> Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd? Ymatebion: Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

(96%), ar wefannau neu apiau cwmnïau archebu a dosbarthu bwyd (95%) ac ar wefannau gwestai neu lety gwely a brecwast. Roedd bron i naw o bob deg ymatebydd (88%) yn meddwl y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau archfarchnadoedd (Ffigur 19)<sup>30</sup>.

---

<sup>30</sup> Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylid arddangos y sgoriau hylendid... Ar apiau a gwefannau cwmnïau archebu a dosbarthu bwyd sy'n caniatáu i chi archebu bwyd o fwytai a siopau tecawê lleol amrywiol? / Ar wefan bwyty neu gaffi? / Ar wefan siop tecawê? / Ar wefan gwesty neu lety gwely a brecwast? / Ar wefan archfarchnad? Sylfaen = 4376, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

# Atodiad A: Bwyd a Chi 2

## Bwyd a Chi 2

### Cefndir

Yn 2018, sefydlodd y [Pwyllgor Cynghori ar Wyddor Gymdeithasol](#) (y Pwyllgor) Weithgor Bwyd a Chi newydd i adolygu methodoleg, cwmpas a ffocws yr arolwg Bwyd a Chi. Ym mis Ebrill 2019, darparodd y Gweithgor Bwyd a Chi gyfres o [argymhellion i'r ASB](#) a'r Pwyllgor ynghylch trywydd yr arolwg Bwyd a Chi yn y dyfodol. Lluniwyd arolwg Bwyd a Chi 2 ar sail yr argymhellion hynny.

Mae arolwg Bwyd a Chi 2 wedi disodli'r arolwg Bwyd a Chi a gynhaliwyd bob dwy flynedd (2010-2018), Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd a gynhaliwyd ddwywaith y flwyddyn (2010-2019) ac Arolwg Tracio Agweddau Defnyddwyr y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a gynhaliwyd yn flynyddol (2014-2019). Mae'r arolwg Bwyd a Chi wedi bod yn Ystadegyn Swyddogol ers 2014.

Cyhoeddwyd adroddiad [Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylch 1](#) ym mis Mawrth 2021.

### Methodoleg

Comisiynir arolwg Bwyd a Chi 2 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Cynhelir y gwaith maes gan Ipsos MORI. Cynhelir arolwg Bwyd a Chi 2 ddwywaith y flwyddyn. Cynhaliwyd gwaith maes Cylch 2 rhwng 20 Tachwedd 2020 a 21 Ionawr 2021.

Arolwg dilyniannol modd-cymysg sy'n annog pobl i'w gwblhau ar-lein yw arolwg Bwyd a Chi 2. Derbyniodd sampl o gyfeiriadau (a ddewiswyd ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol) lythyr yn gwahodd hyd at ddau oedolyn (16 oed neu drosodd) ar yr aelwyd i gwblhau'r arolwg ar-lein. Anfonwyd llythyr atgoffa cyntaf at aelwydydd nad oedden nhw wedi ymateb i'r gwahoddiad cychwynnol. Anfonwyd fersiwn bost o'r arolwg gyda'r ail lythyr atgoffa ar gyfer y rheiny heb fynediad i'r rhyngrwyd neu'r rheiny yr oedd yn well ganddyn nhw gwblhau fersiwn o'r arolwg trwy'r post. Mae hyn yn helpu i leihau'r gogwydd ymateb sydd fel arall yn digwydd gydag arolygon a gynhelir ar-lein yn unig. Mae'r dull hwn yn dderbyniol ar gyfer arolygon y llywodraeth ac arolygon ystadegau

gwladol, gan gynnwys [Cyfrifiad 2021](#) ac [Arolwg o Fywyd Cymunedol 2019/2020](#).

Anfonwyd trydydd nodyn atgoffa – a'r nodyn terfynol – at yr aelwydydd hynny nad oedden nhw wedi cwblhau'r arolwg ar-lein. Rhoddwyd taleb i'r ymatebwyr am gwblhau'r arolwg. Ceir rhagor o fanylion am y fethodoleg yn yr [Adroddiad Technegol](#). Gan fod methodoleg Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd, Arolwg Tracio Agweddau Defnyddwyr y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac arolwg Bwyd a Chi (2010-2018) yn wahanol, nid yw'n bosibl cymharu'r data a gesglir drwy Arolwg Bwyd a Chi 2 (2020 ymlaen) â'r data cynharach hyn. Gellir cymharu'r data mewn gwahanol gylchoedd o arolwg [Bwyd a Chi 2](#).

Cafodd y sampl o brif gyfeiriadau a chyfeiriadau wrth gefn<sup>31</sup> eu gwahanu'n haenau fesul rhanbarth (gyda Chymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu trin fel rhanbarthau ar wahân), ac fe gafodd y cyfeiriadau o fewn rhanbarth (neu wlad) eu gwahanu'n haenau fesul awdurdod lleol (ardal yng Ngogledd Iwerddon) i sicrhau bod y sampl a ddefnyddiwyd wedi'i ddsbarthu'n gymesur ar draws yr awdurdodau lleol. Defnyddiwyd sgoriau amddifadedd cenedlaethol fel yr haen olaf o fewn yr awdurdodau lleol – [y Mynegai Amddifadedd Lluosog \(IMD\)](#) yn Lloegr, [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#) yng Nghymru a [Mesur Amddifadedd Lluosog Gogledd Iwerddon \(NIMDM\)](#) yng Ngogledd Iwerddon.

Oherwydd hyd a chymhlethdod yr holiadur ar-lein, nid oedd yn bosibl cynnwys pob cwestiwn yn yr holiadur post. Roedd angen i'r holiadur post fod yn fyrrach ac yn llai cymhleth i annog mwy o bobl i ymateb. Er mwyn i'r holiadur post fod yn fyrrach ac yn llai cymhleth, crëwyd dwy fersiwn ohono. Mae'r holl ddata a gesglir gan arolwg Bwyd a Chi 2 yn hunangofnodedig. Mae'r data'n dangos agweddau, gwybodaeth ac ymddygiad yr ymatebwyr eu hunain o ran diogelwch bwyd a materion bwyd. Gan mai arolwg ymchwil gymdeithasol yw Bwyd a Chi 2, ni all adrodd am ymddygiadau yr arsylwyd arnyn nhw. Ceir adroddiad am ymddygiadau yr arsylwyd arnyn nhw mewn ceginau yn [Kitchen Life](#), astudiaeth ethnograffig a ddefnyddiodd gyfuniad o arsylwadau, arsylwadau fideo a chyfweliadau i gael cipolwg ar arferion mewn ceginau domestig. Bydd yr astudiaeth hon yn cael ei diweddarau trwy arolwg Kitchen Life 2 sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn 2023.

---

<sup>31</sup> Lluniwyd sampl wrth gefn o gyfeiriadau i'w defnyddio pe na bai'r arolwg yn cyrraedd y darged o ran nifer yr ymatebwyr drwy'r brif sampl o gyfeiriadau.

Maint sampl targed gofynnol yr arolwg yw 4,000 o aelwydydd (2,000 yn Lloegr, 1,000 yng Nghymru, 1,000 yng Ngogledd Iwerddon), gyda hyd at ddau oedolyn ar bob aelwyd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan fel y sonnir uchod. Ar gyfer Cylch 2, cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 5,900 o oedolion o 3,955 o aelwydydd ledled Cymru (1,366 o oedolion), Lloegr (2,968 o oedolion) a Gogledd Iwerddon (1,566 o oedolion). Cafwyd cyfradd ymateb gyffredinol o 28% (Cymru 29%, Lloegr 30%, Gogledd Iwerddon 25%). Cwblhaodd 64% o'r ymatebwyr yr arolwg ar-lein a 36% yr arolwg trwy'r post. Tynnwyd ymatebion post 156 o'r ymatebwyr o'r set ddata oherwydd eu bod wedi cwblhau'r arolwg ar-lein a thrwy'r post. Ceir mwy o fanylion am y cyfraddau ymateb yn yr [Adroddiad Technegol](#).

Cafodd y data ei bwysoli i sicrhau ei fod mor agos â phosibl at fod yn gynrychioliadol o is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill yn y boblogaeth, yn ôl yr arfer gydag arolygon y llywodraeth. Mae'r pwysoliad a ddefnyddir o ran data Bwyd a Chi 2 yn helpu i wneud iawn am amrywiadau yn y dewisiadau a wneir gan unigolion ar yr un aelwyd, am y gogwydd ymateb, ac am y ffaith mai dim ond yn un o'r arolygon post y gofynnwyd rhai cwestiynau. Ceir rhagor o fanylion am y dull pwysoli, ynghyd â'r pwysoliadau a ddefnyddir o ran data Bwyd a Chi 2: Cylch 2, yn yr [Adroddiad Technegol](#).

Cafodd y data ei gadarnhau a'i wirio gan chwe aelod o staff Ipsos MORI a dau aelod o Gangen Ystadegau'r ASB. Cyflawnwyd y dadansoddiad disgrifiadol a'r profion ystadegol gan Ipsos MORI. Defnyddiodd Ipsos MORI feddalwedd ystadegol o'r enw Quantum i gyfrifo'r dadansoddiad disgrifiadol a'r profion ystadegol (profion t).

Mae'r gwerthoedd p sy'n profi arwyddocâd ystadegol yn seiliedig ar brofion t sy'n cymharu'r cyfrannau wedi'u pwysoli ar gyfer ymateb penodol o fewn is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill. Gwnaed addasiad ar gyfer maint gwirioneddol y sampl ar ôl ei phwysoli, ond ni wneir cywiriad ar gyfer cymariaethau lluosog.

Fel arfer, pan adroddir am wahaniaethau rhwng is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill, ceir o leiaf 10 pwynt canran o wahaniaeth rhwng y grwpiau ac maent yn ystadegol arwyddocaol ar y lefel 5% ( $p < 0.05$ ). Fodd bynnag, cafodd rhai gwahaniaethau rhwng grwpiau o ymatebwyr eu cynnwys lle mae'r gwahaniaeth yn llai na 10 pwynt canran, a hynny pan fo'r canfyddiad yn nodedig neu'n ddiddorol. Mae cyfrifiadau

canrannol yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn yn unig. Mae'r gwerthoedd a'r cyfrifiadau a adroddir yn seiliedig ar gyfansymiau wedi'u pwysoli.

## Bwyd a Chi 2: Cylch 2

Cynhaliwyd gwaith maes Bwyd a Chi 2: Cylch 2 rhwng 20 Tachwedd 2020 a 21 Ionawr 2021, a hynny yn ystod y pandemig COVID-19 a gafodd effaith gymdeithasol ac economaidd fawr, gan effeithio ar fywydau pawb o ddydd i ddydd. Disgwylir bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar lefelau'r mynediad at gyflenwad bwyd digonol a nodwyd gan ymatebwyr arolwg Bwyd a Chi 2.<sup>32</sup>

Arolwg sy'n seiliedig ar fodiwlau yw Bwyd a Chi 2. Mae'n cynnwys modiwlau 'craidd' sy'n cael eu cynnwys ym mhob cylch, modiwlau 'cylchdro' sy'n cael eu hailadrodd bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, a modiwlau 'unigryw' sy'n cael eu cynnwys unwaith yn unig. Y modiwlau a gyflwynir yn adroddiad Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylch 2 yw 'Bwyd y gallwn ymddiried ynddo' (craidd), 'Pryderon am fwyd' (craidd), 'Mynediad at gyflenwad bwyd' (cylchdro), 'Bwyta allan a thecawês' (cylchdro), 'Gorsensitifrwydd i fwyd' (cylchdro) a 'Bwyta gartref' (cryno, cylchdro)<sup>33</sup>.

---

<sup>32</sup> Arolwg tracio defnyddwyr ar COVID-19 (2021), ASB. Bwyd mewn pandemig (2021). ASB. Life under Covid-19: Food waste attitudes and behaviours in 2020 (2021), WRAP. State of hunger: Building the evidence on poverty, destitution, and food insecurity in the UK (2021), Ymddiriedolaeth Trussell. Arolwg o Adnoddau Teulu: blwyddyn ariannol 2021 i 2020 (2021), Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn gofyn i'r ymatebwyr roi gwybod am eu profiadau o ansicrwydd bwyd yn ystod y 30 diwrnod diwethaf, felly ni ellir cymharu'r ymatebion ag arolwg Bwyd a Chi 2.

<sup>33</sup> Cafodd dwy fersiwn o'r modiwl 'Bwyta Gartref' eu creu – fersiwn gryno sy'n cynnwys nifer cyfyngedig o gwestiynau, a fersiwn lawn sy'n cynnwys yr holl gwestiynau perthnasol. Rhoddwyd adroddiad am fersiwn lawn y modiwl yng Nghylch 1.

## Termau technegol a diffiniadau

1. Dangosir arwyddocâd ystadegol ar y lefel 5% ( $p < 0.05$ ). Felly, pan fydd yr adroddiad yn nodi gwahaniaeth sylweddol, gellir bod yn weddol hyderus bod y gwahaniaeth a adroddwyd yn adlewyrchu gwahaniaeth gwirioneddol ar lefel y boblogaeth.
2. Mae mynediad at gyflenwad bwyd digonol yn golygu bod pawb yn gallu cael mynediad at ddigon o fwyd bob amser i fyw mewn ffordd iach ac egnïol ([Uwchgynhadledd Bwyd y Byd, 1996](#)). Mae [Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau \(USDA\)](#) wedi creu cyfres o gwestiynau sy'n nodi lefel mynediad ymatebwyr at gyflenwad bwyd digonol. Mae arolwg Bwyd a Chi 2 yn ymgorffori'r [10 eitem a geir ym Modiwl Arolwg Mynediad Oedolion at Gyflenwad Bwyd yr Unol Daleithiau](#) ac yn defnyddio cyfnod cyfeirio o 12 mis. Dosberthir ymatebwyr fel rhai â mynediad uchel, mynediad ymylol, mynediad isel a mynediad isel iawn at gyflenwad bwyd digonol.
3. System ddosbarthu yw'r Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) sy'n awgrymu sefyllfa economaidd-gymdeithasol unigolion ar sail eu statws galwedigaeth a chyflogaeth.
4. Mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar sail ardal ddaearyddol yw'r [Mynegai Amddifadedd Lluosog \(IMD\)](#) / [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#) / [Mesur Amddifadedd Lluosog Gogledd Iwerddon \(NIMDM\)](#). Neilltuir dosbarthiad IMD/MALIC/NIMDM yn ôl cod post neu enw lle. Mae'n gyfrifiad amlddimensiwn y bwriedir iddo gynrychioli'r amgylchiadau byw yn yr ardal, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Caiff ardaloedd bach eu sgorio gan IMD/MALIC/NIMDM; gwneir hyn ar wahân ar gyfer Cymru, [Lloegr](#) a [Gogledd Iwerddon](#).

## Cyfeiriadau

- [Y Pwyllgor Cynghori ar Wyddor Gymdeithasol](#)
- [Cyfrifiad 2011. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

- Duffy, B., Smith, K., Terhanian, G., a Bremer, J. (2005). [Comparing data from online and face-to-face surveys](#). *International Journal of Market Research*, 47(6), 615-639. <https://doi.org/10.1177/147078530504700602>
- [Bwyd a Chi \(2010-2019\)](#)
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cyflwyno Bwyd a Chi 2. (Mawrth, 2020). <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/cyflwyno-bwyd-a-chi-2?navref=quicklink>
- Gaskell, G. (2019). [Adolygiad o Arolwg Bwyd a Chi yr ASB](#). 2 Ebrill 2019. Cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Wyddor Gymdeithasol – Adroddiad am yr Adolygiad o Arolwg Bwyd a Chi (Papur 3.5).
- Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau (USDA). [Food security](#).
- Wills, W., Meah, A., Dickinson, A., a Short, F. (2013). [Domestic kitchen practices: Findings from the 'Kitchen Life' study](#). Adroddiad Prifysgol Swydd Hertford ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- [Uwchgynhadledd Bwyd y Byd 1996, Datganiad Rhufain ar Ddiogelwch Cyflenwad Bwyd y Byd](#).



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle rydym ni wedi nodi unrhyw wybodaeth lle mae'r hawlfraint yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

I gael mwy o wybodaeth ac i weld y drwydded hon:

- ewch i [wefan yr Archifau Gwladol](#)
- anfonwch e-bost at [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)
- ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU

Os oes gennych gwestiynau am y cyhoeddiad hwn, [cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Bwyd](#).

Cyfeirnod y prosiect: FS430662



Dewch o hyd i ni ar Facebook: [facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd](https://facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd)